**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

10 Medi 2020

Annwyl Mick,

Mae cydsyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer creu swyddogaethau cydredol yn OSau y DU a Biliau y DU wedi cael ei seilio bob amser ar ymrwymiad gan Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gyflwyno Gorchymyn adran 109 i sicrhau y gallai'r Senedd ddileu'r swyddogaethau hyn yn y dyfodol heb orfod cael cydsyniad Gweinidog y Goron.

Roeddwn yn disgwyl y byddai Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cyflwyno'r Gorchymyn er mwyn galluogi iddo gael ei osod cyn Toriad yr Haf, ond yn anffodus nid yw hyn wedi digwydd ac nid wyf wedi cael cadarnhad hyd yma o'r amserlen newydd. O ganlyniad, ni fyddaf mewn sefyllfa i drafod y mater yn y sesiwn dystiolaeth ar 21 Medi. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru i bennu amserlen newydd a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.